Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Y Gyfres Cynllunio
## 13 - Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol

Hydref 2024



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

X: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Y Gyfres Cynllunio
# 13 - Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol

Hydref 2024


**Awduron:**
Elfyn Henderson a Jake Lloyd Newman


**Trosolwg o'r papur:**


Mae Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC) yn brosiectau datblygu seilwaith mawr o bwysigrwydd cenedlaethol. Gweinidogion Cymru sy'n penderfynu ar y rhan fwyaf o geisiadau cynllunio am DAC.

Mae'r papur briffio hwn yn rhoi trosolwg o beth yw DAC, y broses o roi caniatâd ar eu cyfer a sut y mae cymunedau'n rhan o'r broses DAC.

# Cynnwys

**1. Beth yw Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol............1**

Y broses ymgeisio............1

Polisi cynllunio cenedlaethol............1

Newidiadau diweddar ac yn y dyfodol............2

**2. Beth yw'r broses ymgeisio am DAC? ............3**

Cyfnod 1: Cyn-ymgeisio............3

Cyfnod 2: Cyflwyno cais............4

Cyfnod 3: Archwiliad............5

Cam 4: Penderfyniad............6

**3. Sut y gall cymunedau lleol gymryd rhan yn y broses?............6**

**4. A ellir herio penderfyniad DAC? ............7**

**5. Ffynonellau allweddol ............7**

Llywodraeth Cymru ............7

Cymorth Cynllunio Cymru............8

Ymchwil y Senedd ............8

**Atodiad – rhestr o gategorïau DAC............9**

# 1. Beth yw Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol

Cyflwynodd ***Deddf Cynllunio (Cymru) 2015*** gategori newydd o **Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol** (DAC) yng Nghymru. Mae DAC yn fath o gais cynllunio am brosiectau seilwaith mawr (lle y mae caniatâd wedi'i ddatganoli) y mae Gweinidogion Cymru, yn hytrach nag awdurdodau cynllunio lleol (ACLl), yn penderfynu arno. Llywodraeth y DU sy'n penderfynu ar brosiectau mwy, lle nad yw caniatâd wedi'i ddatganoli, drwy **broses y Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (PSAC)**. Mae ar PSAC angen math gwahanol o ganiatâd, sef Gorchymyn Caniatâd Datblygu (GCD), a roddir o dan ***Ddeddf Cynllunio 2008***.

Mae prosiectau DAC o bwysigrwydd cenedlaethol ac yn cynnwys meysydd awyr, rheilffyrdd, cyfleusterau storio nwy a gorsafoedd cynhyrchu ynni. Mae hyn yn ddarostyngedig i drothwyon penodol a nodir mewn **rheoliadau**. Ceir rhestr lawn o brosiectau DAC yn yr atodiad.

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi **cofrestr o'r holl geisiadau DAC** sy'n cynnwys y rhai sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd a'r rhai y penderfynwyd arnynt eisoes.

## Y broses ymgeisio

Rheolir y broses ymgeisio DAC gan **Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC)**, sef Arolygiaeth Gynllunio Cymru gynt, ar ran Llywodraeth Cymru. Gwneir penderfyniadau yng nghyd-destun y **Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC)** (gweler isod) a chynllun datblygu lleol yr ACLl. Ceir rhagor o fanylion am y broses yn adran 2 o'r canllaw hwn.

## Polisi cynllunio cenedlaethol

Mae'r FfDC, sy'n dwyn y teitl Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040, yn nodi fframwaith defnydd tir 20 mlynedd ac mae ganddo statws cynllun datblygu. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i benderfyniadau cynllunio gael eu gwneud yn unol ag ef a bod yn rhaid i **gynlluniau datblygu strategol a lleol** gydymffurfio ag ef, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall.

Mae'r FfDC yn gweithredu fel y cynllun datblygu cenedlaethol ar gyfer penderfynu ar geisiadau DAC ac mae'n rhaid ei adolygu bob pum mlynedd. Cyhoeddwyd yr iteriad cyntaf yn 2021 ac mae'n cynnwys polisïau gofodol penodol yn ymwneud â DAC ynni adnewyddadwy a charbon isel (gweler polisi 18 o'r FfDC).

Mae'r polisïau DAC sydd wedi'u cynnwys yn yr FfDC yn canolbwyntio ar ynni adnewyddadwy a charbon isel gan y rhagwelir mai'r rhain fydd y cynlluniau mwyaf cyffredin a gyflwynir. Bydd fersiynau yn y dyfodol yn cynnwys polisïau ychwanegol ar gyfer mathau eraill o DAC.

Ochr yn ochr â'r FfDC, mae polisïau cynllunio cenedlaethol Llywodraeth Cymru wedi'u nodi ym **Mholisi Cynllunio Cymru (PCC)**. Mae polisïau sydd wedi'u cynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru yn gweithredu fel ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau DAC.

## Newidiadau diweddar ac yn y dyfodol

### Deddf Cymru 2017

Yn dilyn cyflwyno'r gyfundrefn DAC, datganolodd ***Deddf Cymru 2017*** (Deddf Cymru) ragor o bwerau caniatâd i Lywodraeth Cymru.

Roedd hyn yn cynnwys pwerau, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2019, yn ymwneud â gorsafoedd cynhyrchu ynni. Mae pwerau caniatâd ar gyfer gorsafoedd sydd â chynhwysedd hyd at 350 megawat (MW) ar y tir ac yn nyfroedd Cymru (sef ardal ar y glannau tua 12 milltir forol o lannau Cymru) bellach wedi'u datganoli. Mae caniatâd ar gyfer prosiectau ar y tir bellach wedi'i ddwyn dan y gyfundrefn DAC a rhoddir caniatâd yn nyfroedd Cymru dan gyfundrefnau eraill ar hyn o bryd.

Yn flaenorol, roedd caniatâd ar gyfer cynhwysedd dros 50MW yn fater a gedwir yn ôl i Lywodraeth y DU.  Mae caniatâd ar gyfer capasiti dros 350MW yn parhau i fod yn fater a gedwir yn ôl i Lywodraeth y DU ac mae ACLl yn ymdrin â chaniatâd ar gyfer cynhwysedd llai na 10MW.

At hynny, datganolodd Deddf Cymru bwerau caniatâd mewn perthynas â llinellau trydan uwchben hyd at 132 Cilofolt (KV) sy'n gysylltiedig â phrosiect cynhyrchu ynni datganoledig. Ymdrinnir â cheisiadau am y prosiectau hyn bellach dan y gyfundrefn DAC ond, yn wahanol i'r rhan fwyaf o geisiadau DAC, Arolygydd a benodir gan PCAC, yn hytrach na Gweinidogion Cymru, sy'n penderfynu arnynt.

### Deddf Seilwaith (Cymru) 2024

Mae'r ffordd y datganolwyd y pwerau caniatâd ychwanegol hyn drwy Ddeddf Cymru wedi creu rhai anomaleddau y mae Llywodraeth Cymru am ymdrin â hwy. Mae Ymchwil y Senedd wedi **cyhoeddi erthygl** sy'n nodi'r manylion am y materion hyn.

Yn 2023 cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Bil Seilwaith (Cymru) i'r Senedd gyda'r bwriad o sefydlu proses gydsynio siop un stop newydd wedi'i theilwra'n arbennig ar gyfer Cymru. Pasiodd y Senedd y Bil a chafodd ***Deddf Seilwaith (Cymru) 2024*** (y Ddeddf Seilwaith) gydsyniad brenhinol ym mis Mehefin 2024. Bydd y broses newydd yn disodli'r llwybr cydsynio presennol ar gyfer caniatâd cynllunio ar gyfer DAC.

Mae'r Ddeddf Seilwaith yn symleiddio'r broses ar gyfer datblygu prosiectau seilwaith sylweddol drwy sefydlu un broses gydsynio seilwaith ar gyfer mathau penodol o brosiectau seilwaith mawr.

Bydd y math newydd o gydsyniad yn cael ei alw yn 'Gydsyniad Seilwaith' (CS) a bydd yn cael ei roi ar gyfer prosiectau a ragnodir fel 'Prosiect Seilwaith Arwyddocaol' (PSA). Mae PSA yn cynnwys prosiectau ynni, trafnidiaeth, gwastraff, dŵr a nwy ar dir ac yn nyfroedd Cymru. Mae CS yn cynnwys yr ystod lawn o awdurdodiadau sydd eu hangen i alluogi datblygiad. Rhaid i ddatblygwyr gael CS ar gyfer PSA.

Mae Llywodraeth Cymru yn **ymgynghori ar weithredu'r Ddeddf Seilwaith** (19 Medi i 13 Rhagfyr 2024) a disgwylir i'r drefn CS newydd ddechrau ganol 2025.

**Cynhyrchodd Ymchwil y Senedd nifer o gyhoeddiadau** yn ystod taith y Bil drwy'r Senedd.

## 2. Beth yw'r broses ymgeisio am DAC?

Diffinnir y broses ymgeisio gan **Orchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016**, fel y'i diwygiwyd, a **Rheoliadau** dilynol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi **cyfres o ganllawiau** ar y broses ymgeisio sy'n cynnwys pedwar prif gam. Trefnir bod y broses yn rhoi mwy o bwyslais ar y camau rhagarweiniol, er mwyn datrys cynifer o faterion â phosibl cyn i'r cais gael ei gyflwyno i PCAC.

### Cyfnod 1: Cyn-ymgeisio

Ar gam statudol cyntaf y broses, mae'n rhaid i ddarpar ymgeisydd gyflwyno hysbysiad o gais arfaethedig, y mae'n rhaid i PCAC ei dderbyn neu ei wrthod o fewn deng niwrnod gwaith. Fodd bynnag, anogir ymgeiswyr yn daer i ymgysylltu â rhanddeiliaid megis yr ACLl a chymunedau yr effeithir arnynt cyn i brosesau hysbysu ac ymgynghori ffurfiol ddechrau i nodi materion.

Os bydd PCAC yn derbyn yr hysbysiad, mae gan yr ymgeisydd ddeuddeng mis i gyflwyno'r cais. Yn ystod y deuddeng mis hyn, mae'n rhaid i'r ymgeisydd ymgymryd â phroses cyn-ymgeisio ffurfiol fel yr amlinellir isod.

Ar y cam hwn gall ymgeiswyr hefyd wneud cais am gyngor cyn-ymgeisio gan PCAC, a chan yr ACLl. Gallai cyngor gynnwys canllawiau ar ffurf a chynnwys y cais ac adroddiadau technegol, polisi cynllunio perthnasol, **rhwymedigaethau cynllunio** (Cytundebau adran 106), gofynion statudol, a nodi ymgyngoreion.

### Ymgynghoriad cyn-ymgeisio ffurfiol

Mae'n rhaid i ymgeiswyr gynnal ymgynghoriad cyn-ymgeisio ffurfiol sy'n para o leiaf chwe wythnos. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'n rhaid iddynt roi cyhoeddusrwydd i'r prosiect. Mae'n rhaid i ymgeiswyr gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i berchnogion neu feddianwyr tir sy'n ffinio â'r safle, arddangos hysbysiadau safle, a gosod hysbysiad mewn papur newydd lleol fel gofynion sylfaenol ond disgwylir y bydd y rhan fwyaf o brosiectau'n rhagori ar y rhain. Bydd ymgyngoreion yn cynnwys ymgyngoreion cymunedol (gan gynnwys cynghorau cymuned a chynghorwyr o bob ward etholiadol lle y mae safle'r prosiect), ymgyngoreion arbenigol, a'r awdurdodau sy'n ymwneud â chaniatâd eilaidd.

Mae'n rhaid i'r ymgeisydd lunio **adroddiad ymgynghori cyn-ymgeisio** y mae'n rhaid ei gyflwyno gyda'r cais cynllunio.

## Cyfnod 2: Cyflwyno cais

Fel yr amlinellwyd, mae gan yr ymgeisydd ddeuddeng mis ar ôl hysbysiad i gyflwyno cais i PCAC. Mae'n rhaid i'r cais gynnwys **nifer o ddogfennau**, gan gynnwys copi o adroddiad yr ymgynghoriad cyn-ymgeisio.

Pan fydd ceisiadau wedi'u cyflwyno, ni chaniateir newidiadau mawr iddynt, sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd y cam cyn-ymgeisio.

Ar ôl cyflwyno cais, mae gan PCAC 28 niwrnod, neu 42 ddiwrnod yn achos ceisiadau y mae arnynt angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, i benderfynu a yw'r cais yn ddilys.

### Ymgynghori a chyhoeddusrwydd (y cyfnod sylwadau)

Pan fydd cais yn cael ei dderbyn fel un dilys, mae PCAC yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r ymgeisydd, ac yn dechrau cyfnod sylwadau sy'n para pum wythnos fel arfer, pan fydd PCAC yn gwneud gwaith cyhoeddusrwydd ac ymgynghori.

Mae'n rhaid i'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad ("sylwadau") ddod i law o fewn y cyfnod pum wythnos hwn. Mae'n rhaid i'r ACLl perthnasol ar gyfer yr ardal(oedd) y mae'r cais yn ymwneud â hi/hwy hefyd lunio adroddiad ar yr effaith leol a'i gyflwyno i PCAC o fewn y cyfnod pum wythnos.

Yn ystod y cyfnod hwn, bydd PCAC yn cysylltu ag ymgyngoreion arbenigol penodol a chynghorau cymuned mewn perthynas â'r cais. Mae'n rhaid iddynt ymateb o fewn y cyfnod pum wythnos drwy wneud 'ymateb o sylwedd' neu gadarnhau na wneir sylwadau. Gellir ymestyn y terfynau amser hyn os bydd y ddau barti'n cytuno.

Nid oes gofyniad ar PCAC i gysylltu â phartïon eraill a wnaeth sylwadau yn ystod y cam cyn-ymgeisio er y caiff unrhyw un wneud sylwadau i PCAC os ydynt am wneud hynny.

Yn dilyn diwedd y cyfnod pum wythnos, mae gan yr ymgeisydd ddeng niwrnod i wneud amrywiadau mân i'r cais. Os yw PCAC yn cytuno ar yr amrywiad arfaethedig, caiff y broses ei hatal dros dro ac mae gan yr ymgeisydd 28 niwrnod i gyflwyno dogfennau diwygiedig. Os nad yw PCAC yn cytuno, bydd y cais yn parhau i gael ei archwilio fel y'i cyflwynwyd yn wreiddiol.

## Cyfnod 3: Archwiliad

Ar y cam hwn, bydd Arolygydd a benodwyd i'r cais gan PCAC yn archwilio'r cais ac yn llunio adroddiad i Weinidogion Cymru. Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys argymhelliad ynghylch a ddylid gwrthod neu roi caniatâd cynllunio. Gall hefyd gynnwys amodau cynllunio y mae'r Arolygydd yn ystyried y dylid eu gosod os yw caniatâd i'w roi.

Gall yr archwiliad fod ar ffurf sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiad, ymchwiliad cyhoeddus neu gyfuniad o'r tri.

### Amserlenni

Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru wneud penderfyniad ar gais DAC 36 wythnos o ddyddiad dilysu cais (gweler cam 2). Er mwyn bodloni'r amserlen hon, mae'n rhaid i PCAC gyflwyno ei adroddiad i Weinidogion Cymru o fewn 24 wythnos, gan adael deuddeg wythnos i Weinidogion Cymru ystyried yr adroddiad a chyhoeddi penderfyniad.

Gan ystyried y cyfnod sylwadau pum wythnos, yna'r cyfnod deng niwrnod i ymgeiswyr benderfynu a ddylid amrywio cais (gweler cam 2), mae hyn yn gadael 17

wythnos i PCAC ar gyfer y cyfnod archwilio.

Os oes angen gwrandawiad ar gyfer yr archwiliad, mae'n rhaid ei gynnal o fewn deg wythnos i ddiwedd y cyfnod sylwadau. Os oes angen ymchwiliad, mae'n rhaid cynnal hwn o fewn 13 wythnos i ddiwedd y cyfnod sylwadau. Mae gwrandawiad yn llai ffurfiol nag ymchwiliad a gynhelir dim ond pan fydd materion cymhleth neu dechnegol i ymdrin â hwy.

Dim ond ar brif faterion penodol a bennir gan yr Arolygydd y bydd gwrandawiad neu ymchwiliad yn canolbwyntio. Ymdrinnir â materion eraill drwy sylwadau ysgrifenedig. Mae Llywodraeth Cymru wedi **cyhoeddi canllawiau** sy'n rhoi mwy o fanylion am wrandawiadau ac ymchwiliadau.

### Cam 4: Penderfyniad

Mae gan Weinidogion Cymru ddeuddeg wythnos i'r dyddiad y daw adroddiad yr Arolygydd i law i gyhoeddi llythyr penderfyniad ar y cais DAC a chydsyniadau eilaidd cysylltiedig. Nid oes rhaid i Weinidogion Cymru gytuno ag argymhelliad yr Arolygydd.

Pan gaiff ei wneud, bydd y penderfyniad ac adroddiad yr Arolygydd cysylltiedig yn cael eu cyhoeddi ar **wefan Llywodraeth Cymru**.

## 3. Sut y gall cymunedau lleol gymryd rhan yn y broses?

Mae tri phrif gam lle y gall cymunedau ddweud eu dweud ar DAC:

- hysbysiad cyn-ymgeisio (gwirfoddol ar ran yr ymgeisydd/datblygwr, ond anogir hyn yn daer fel rhan ganolog o'r broses);
- ymgynghoriad cyn-ymgeisio ffurfiol (yn para chwe wythnos ac yn orfodol);
- cyfnod sylwadau ar ôl cyflwyno (yn para pum wythnos ac yn orfodol).

Y cyfle mwyaf i ddylanwadu ar brosiect DAC yw yn ystod y cyfnod cyn-hysbysu gwirfoddol, drwy fynd i ddigwyddiadau a chyfarfodydd neu siarad â'r ymgeisydd. Fodd bynnag, mae'r cam hwn yn wirfoddol ar ran yr ymgeisydd.

Gellir gwneud sylwadau neu wrthwynebiadau ffurfiol hefyd yn ystod y cyfnodau cyn-ymgeisio gorfodol a'r prif gyfnodau sylwadau.

Yn ystod y cam ymgynghori cyn-ymgeisio, gall cymunedau wneud sylwadau/ gwrthwynebiadau i'r ymgeisydd. Yn dilyn hyn, os nad yw'r gwrthwynebwyr yn fodlon ar y ffordd yr ymdriniwyd â'u sylwadau, neu am wrthwynebu o hyd, gallant wneud hynny yn ystod y cyfnod sylwadau ar ôl cyflwyno. Ar y cam hwn, cyflwynir sylwadau ysgrifenedig i'r Arolygydd.

Os bydd yr Arolygydd yn penderfynu bod angen gwrandawiad neu ymchwiliad, caiff y cyhoedd fod yn bresennol. Fodd bynnag, dim ond y rhai a wahoddir gan yr Arolygydd yn benodol i siarad a gaiff gymryd rhan ffurfiol yn y broses. Bydd y gwrandawiad/ymchwiliad yn canolbwyntio ar brif fater dan sylw a dim ond gwrthwynebiadau sy'n ymwneud â'r prif fater hwn a wrandewir.

Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio **canllaw i gymunedau** sy'n rhoi rhagor o wybodaeth am sut i gymryd rhan yn y broses DAC.

## 4. A ellir herio penderfyniad DAC?

Nid oes hawl i apelio yn erbyn penderfyniad Gweinidogion Cymru i roi neu wrthod caniatâd cynllunio ar gyfer DAC. Dim ond  ar sail anghyfreithlondeb, afresymoldeb neu amhriodoldeb gweithdrefnol y gellir herio penderfyniad. Mae'n rhaid cofnodi her o'r fath o fewn chwe wythnos i'r penderfyniad.

Os rhoddir caniatâd, ACLl sy'n gyfrifol am sicrhau bod datblygiad yn gyson â'r caniatâd cynllunio. Dylai'r ACLl fonitro gweithrediad a sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r cynlluniau a'r amodau cysylltiedig. Mae gan yr ACLl y pŵer i gymryd **camau gorfodi** os yw'n ystyried nad yw'r datblygiad yn cydymffurfio.

## 5. Ffynonellau allweddol

### Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi **cyfres o ganllawiau** yn ymwneud â'r broses DAC.

Mae hefyd yn cynnal **cofrestr o geisiadau DAC**.

Mae gan wefan Cyfraith Cymru wybodaeth am ***Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024***. Mae Llywodraeth Cymru yn **ymgynghori ar y broses o'i gweithredu** (19 Medi – 13 Rhagfyr 2024).

## Cymorth Cynllunio Cymru

Elusen yw **Cymorth Cynllunio Cymru**, sy'n helpu unigolion a chymunedau cymwys i gymryd rhan yn fwy effeithiol yn y system gynllunio. Mae'n darparu gwasanaethau cynghori, gan gynnwys llinell gymorth a **chanllawiau**.

## Ymchwil y Senedd

Mae papurau briffio cynllunio eraill sy'n cael eu llunio gan Ymchwil y Senedd ar gael dan y **categori cynllunio** ar **wefan Ymchwil y Senedd**.

Mae **tudalen adnoddau Ymchwil y Senedd ar gyfer y Bil Seilwaith (Cymru)** yn cynnwys cyhoeddiadau sy'n ymwneud â hynt y Bil drwy'r Senedd.

# Atodiad – rhestr o gategorïau DAC

<table>
<tr><th>Math o ddatblygiad</th><th>Trothwy maint/cynhwysedd</th></tr>
<tr><td>Adeiladu, ymestyn neu addasu gorsaf cynhyrchu trydan (heblaw am orsaf cynhyrchu ynni gwynt ar y tir)</td><td>Disgwylir y bydd ganddi gynhwysedd (neu gynnydd mewn cynhwysedd) rhwng 10 a 350 megawat</td></tr>
<tr><td>Adeiladu, ymestyn neu addasu gorsaf cynhyrchu trydan ynni gwynt ar y tir</td><td>Disgwylir y bydd ganddo gynhwysedd cynhyrchu gosodedig 10 megawat neu fwy</td></tr>
<tr><td>Gosod llinell drydan uwchben</td><td>Hyd at 132 cilofolt cysylltiedig ag adeiladu neu ymestyn gorsaf cynhyrchu ynni ddatganoledig y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar ei chyfer ar 1 Ebrill 2019 neu wedi hynny</td></tr>
<tr><td>Datblygiad yn ymwneud â chyfleusterau storio nwy tanddaearol</td><td rowspan="3">Cynhwysedd gweithredol (neu gynnydd mewn cynhwysedd) o leiaf 43 miliwn metr ciwbig safonol a/neu uchafswm cyfradd llif (neu gynnydd yn yr uchafswm cyfradd llif) o leiaf 4.5 miliwn metr ciwbig safonol y dydd</td></tr>
<tr><td>Adeiladu neu addasu cyfleuster Nwy Naturiol Hylifedig</td></tr>
<tr><td>Adeiladu neu addasu cyfleuster derbyn nwy</td></tr>
<tr><td>Datblygiad cysylltiedig â maes awyr</td><td>Gwasanaethau cludo teithwyr awyr ar gyfer o leiaf filiwn o deithwyr y flwyddyn, neu wasanaethau cludo cargo awyr ar gyfer o leiaf 5,000 o symudiadau cludo drwy’r awyr y flwyddyn ar awyrennau cargo</td></tr>
<tr><td>Adeiladu neu addasu rheilffordd</td><td>Darn o drac mwy na dau gilometr di-dor o hyd, yn gyfan gwbl neu’n rhannol yng Nghymru ac yn rhan o rwydwaith a weithredir gan weithredwr cymeradwy</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| **Adeiladu neu addasu cyfnewidfa nwyddau rheilffordd (gan gynnwys warysau) ond nid os yw'n rhan o sefydliad milwrol** | Yn gallu trin llwythi o fwy nag un traddodwr i fwy nag un traddodai, a thrin o leiaf ddau drên nwyddau y dydd |
| **Adeiladu neu addasu argae neu gronfa ddŵr** | Disgwylir i gyfaint y dŵr i'w ddal yn ôl gan yr argae neu ei storio yn y gronfa ddŵr fod yn fwy na 10 miliwn metr ciwbig |
| **Datblygiad yn ymwneud â throsglwyddo adnoddau dŵr** | Disgwylir i gyfaint y dŵr sydd i'w drosglwyddo o ganlyniad i'r datblygiad fod yn fwy na 100 miliwn metr ciwbig y flwyddyn |
| **Adeiladu neu addasu gwaith trin dŵr gwastraff neu seilwaith ar gyfer trosglwyddo neu storio dŵr gwastraff** | Disgwylir y bydd ganddo gynhwysedd sy'n fwy na chyfwerth â phoblogaeth 500,000, neu seilwaith ar gyfer storio dŵr gwastraff sy'n fwy na 350,000 metr ciwbig |
| **Adeiladu neu addasu cyfleuster gwastraff peryglus** | Yn achos gwaredu gwastraff peryglus drwy ei dirlenwi neu ei storio'n ddwfn, mwy na 100,000 tunnell y flwyddyn; mewn unrhyw achos arall, mwy na 30,000 tunnell y flwyddyn |